## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o’r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthin, Dydd Mercher, 16 Rhagfyr 2015 am 2.00 pm.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Cefyn Williams a Huw Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Gyfreithiwr (AL), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr holl bartïon i'r cyfarfod a chyflwynwyd pawb a oedd yn bresennol. Roedd gweithdrefnau’r gwrandawiad wedi eu hanfon ynghynt i bawb ac roedd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu ar gael yn y cyfarfod.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw un ddatgan cysylltiad.

### 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS AM DRWYDDED BERSONOL - YMGEISYDD RHIF 15/1517/LAPER

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â –

(i) chais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 15/1517/LAPER am Drwydded Bersonol newydd yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodiad B yr adroddiad);

(ii) rhoi Trwydded Bersonol i unigolyn yn awdurdodi’r unigolyn hwnnw i gyflenwi alcohol, neu awdurdodi cyflenwi alcohol, yn unol â thrwydded eiddo ac sydd mewn grym am nifer digyfyngiad o flynyddoedd oni bai ei bod yn cael ei hildio, ei diddymu, ei hatal neu ei fforffedu;

(iii) yr Ymgeisydd wedi datgan trosedd berthnasol heb ei threulio fel rhan o'r broses o ymgeisio am Drwydded Bersonol;

(iv) Heddlu Gogledd Cymru wedi mynegi gwrthwynebiadau i'r cais ar y sail y byddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio amcan atal troseddu Deddf Trwyddedu 2003 (Atodiad A i'r adroddiad);

(v) yr angen i ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyledus i'r Canllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor; deddfwriaeth berthnasol arall a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a

(vi) yr opsiynau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ar y cais.

Rhoddodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd grynodeb o’r adroddiad ac amlinellodd ffeithiau'r achos.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol i gefnogi ei gais ac adroddodd ar ei waith a'i brofiad yn y fasnach dafarndai. Roedd yn dymuno dilyn gyrfa yn y diwydiant hwnnw ac wedi cael ei annog gan ei gyfoedion i wneud cais am Drwydded Bersonol er mwyn cyflawni ei uchelgais. Eglurodd ei fod eisiau parhau yn y math hwnnw o waith yn hytrach na bod yn ddi-waith a cheisio am waith mewn diwydiannau eraill.

**CYFLWYNIAD HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Roedd Mr Aaron Haggas, Swyddog Trwyddedu'r Heddlu yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru. Er yn cydnabod fod yr Ymgeisydd wedi bod yn onest wrth ddatgan ei euogfarn nododd yr Heddlu ei fod yn euogfarn difrifol ac yn drosedd berthnasol nad oedd wedi ei threulio o dan amodau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. O ganlyniad, nododd yr Heddlu y byddai caniatáu'r drwydded yn tanseilio'r amcan atal troseddu ac y dylai'r Ymgeisydd ail-ymgeisio pan fydd yr euogfarn wedi cael ei dreulio. Nododd Mr. Haggas hefyd nad oedd angen Trwydded Bersonol ar yr Ymgeisydd er mwyn gweithio yn y fasnach drwyddedig.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i holi'r Ymgeisydd ynghylch ei euogfarn a mynegwyd pryder ei fod wedi methu â mynegi unrhyw edifeirwch ynglŷn â hynny yn ystod ei gyflwyniad. Ymatebodd yr ymgeisydd i'r aelodau fel a ganlyn -

- cydnabu ei fod wedi bod yn ffôl yn ei ieuenctid a’i fod yn difaru ei ymddygiad yn y gorffennol, ond rhoddodd sicrwydd ynghylch ei ymddygiad presennol ac yn y dyfodol, gan gadarnhau ei fod wedi dal swydd â chyfrifoldeb yn y fasnach dafarndai yn ddiweddar ac roedd yn dymuno datblygu ei uchelgais i’r perwyl hwnnw
- ymhelaethodd ar ei euogfarn a'r ddedfryd a roddwyd iddo a oedd wedi gwneud iddo ddeffro o ran ei ymddygiad a'i fod wedi dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol
- ymddiheurodd am ei ymddygiad yn y gorffennol gan ddweud ei fod wedi bod yn ifanc a ffôl ac yn hawdd i’w arwain
- amlygodd fod ei amgylchiadau wedi newid ac roedd yn mwynhau gweithio yn y fasnach dafarndai ac yn dymuno datblygu gyrfa yn y proffesiwn.

**DATGANIAD TERFYNOL YR YMGEISYDD**

Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd ganddo ddim arall i'w ychwanegu at ei gyflwyniad.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (2.15pm) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**PENDERFYNIAD A RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais.*

Cyflwynodd y Cadeirydd benderfyniad yr Is-bwyllgor i'r rhai a oedd yn bresennol ac adroddodd y Prif Gyfreithiwr y rhesymau dros y penderfyniad fel a ganlyn -

Teimlai'r Is-bwyllgor Trwyddedu y byddai caniatáu'r drwydded ar yr achlysur hwn yn tanseilio'r amcan trosedd ac anhrefn. Roedd yr Ymgeisydd ond wedi ei gael yn euog o drosedd ym mis Mai 2012 a chafodd ei garcharu am ddeuddeg mis. Roedd hon yn drosedd ddifrifol ac yn cael ei hystyried yn drosedd berthnasol wrth ystyried a ddylid rhoi trwydded iddo.

Er ei bod yn glodwiw fod yr Ymgeisydd yn dymuno aros yn y fasnach dafarndai ac osgoi derbyn budd-daliadau a lwfans ceisio gwaith, cydnabuwyd y byddai'n dal i allu parhau i weithio gan fod swyddi eraill y gallai eu gwneud heb ddal Trwydded Bersonol.

Atgoffwyd yr Ymgeisydd nad oedd rhoi Drwydded Bersonol yn benderfyniad anochel. Roedd yn broses a ystyriwyd yn ofalus ac mae rhoi trwydded yn rhoi'r Ymgeisydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth fawr. Nid darn o bapur neu gerdyn yn unig oedd trwydded, ond cydnabyddiaeth o ffydd a hyder mewn unigolyn i gadw at y deddfau a'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r fasnach drwyddedig. Cadw pobl yn ddiogel rhag niwsans, diogelu pobl yn erbyn trosedd ac anhrefn, diogelu plant rhag niwed, a sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Anogwyd yr Ymgeisydd i barhau ar yr un trywydd ag yr oedd wedi bod yn mynd arno i adsefydlu ei hun, ac ni ddylai deimlo na allai wneud cais yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, teimlai'r Is-bwyllgor bod y cais hwn yn rhy fuan ar ôl ei euogfarn.

Yn olaf, rhoddwyd gwybod i'r Ymgeisydd fod hawl ganddo i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.25pm.